# COPA1

## Ydych chi eisiau ennill £1,500 i helpu i wneud Eryri yn ddi-blastig?

## Ydych chi eisiau mynychu'r uwchgynhadledd amgylcheddol 1af ar Yr Wyddfa?

## Beth yw eich Syniad Mawr buddugol chi?

Mae gennych chi gyfle unigryw i lunio dyfodol Yr Wyddfa, sut fyddwch chi'n bachu arno?

Mae 5% o gopa'r Wyddfa yn ficroblastigau ac mae criw o wirfoddolwyr wedi casglu dros hanner pwysau car o sbwriel oddi ar y llethrau mewn cyn lleied â chwe mis. Dyna pam y dechreuodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri brosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig - i roi diwedd ar y llygredd plastig hwn.

Rwan, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn eich gwahodd chi i'n helpu ni i frwydro yn erbyn y broblem.

Ym mis Medi 2024, gallech chi gael eich galw – ynghyd â disgyblion eraill o bob rhan o Ogledd Cymru – i gyflwyno eich Syniad Mawr i leihau llygredd untro yn COPA1: yr uwchgynhadledd amgylcheddol gyntaf ar Yr Wyddfa.

Os bydd eich Syniad Mawr chi yn un gwerth chweil, byddwch yn cael eich gwahodd i ymuno â ni ar Yr Wyddfa, i'w gyflwyno i arbenigwyr yn eu maes. Bydd yr arbenigwyr yn dweud wrthych sut i wireddu eich syniadau mewn **sesiynau deor*** sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r syniadau. Bydd grŵp buddugol o bob sesiwn yn cael ei ddewis.

Bydd y grwpiau buddugol yn derbyn £1,500 i wireddu eu syniadau a byddant yn cael eu cefnogi gyda mentoriaeth gan yr arbenigwyr y buont yn gweithio â nhw i gyflawni eu prosiectau.

** Mae sesiwn deor yn weithdy sy'n helpu mentergarwyr, dyfeiswyr a phobl greadigol i ddatblygu a gwireddu eu syniadau. Trwy weithio gydag arbenigwyr a hwyluswyr profiadol yn eu maes, gall disgyblion weithio ar fanylion eu cysyniadau a datrys unrhyw broblemau posibl.*

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

PARC CENEDLAETHOL ERYRI SNOWDONIA NATIONAL PARK

Eco-Sgolion Eco-Schools

# Blwyddyn 7-8

**Categori:** CREADIGOL

**Briff:** Cynnig a chyflwyno syniad ar gyfer cynnal ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus greadigol* i fynd i'r afael â phroblem sbwriel ar Yr Wyddfa. Gallai'r ymgyrch hon fod yn un ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, yn fideo cerddoriaeth, yn llyfr plant, yn ffilm fer neu'n unrhyw gyfrwng arall y credwch fydd yn denu cynulleidfa fawr ac yn helpu i ledaenu neges Prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig.

**Y gofynion ar gyfer cymryd rhan:**

- Grŵp o 2-4 disgybl i gynnig a chyflwyno syniad.
- Cyflwyno fideo hyd at 3 munud i gynnig ac egluro'r syniad.
- Gallwch siarad yn uniongyrchol i mewn i'r camera gyda'ch grŵp neu greu cyflwyniad sleidiau.
- Cofiwch ein bod yn gofyn i chi **gynnig a chyflwyno'r syniad i ni**. Nid oes rhaid i chi ei greu; mi fyddwn ni'n eich helpu i'w gynhyrchu!
- Y dyddiad cau pendant ar gyfer cyflwyno'ch fideos ydi 30 Mai 2024. Gallwch anfon eich fideo i ni ar y ddolen hon **Cyflwyniad COPA1.**[1]

**PWYSIG:** Fel rhan o'ch fideo, rhowch y wybodaeth ganlynol i ni pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch hun:

- Enwau a chyfenwau aelodau eich grŵp
- Eich blwyddyn ysgol
- Eich ysgol

**Mae ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus yn ymgyrch sydd â'r nod o addysgu pobl a llunio eu barn ar faterion pwysig. Am enghreifftiau o ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cysylltwch â ni yn uniongyrchol ar copa@eryri.llyw.cymru.*

**Pethau i'w cadw mewn cof**

Yn eich cynnig / cyflwyniad fideo, ystyriwch y cwestiynau canlynol a rhowch atebion i ni o ran sut yr ydych wedi mynd i'r afael â'r isod:

- Beth yw pwrpas eich ymgyrch? Beth yw'r stori rydych chi'n ei hadrodd?
- Sut y bydd yn argyhoeddi pobl i beidio â thaflu sbwriel?
- Sut mae eich ymgyrch yn mynd i hoelio sylw pobl? Sut mae'n unigryw?
- Gyda phwy fyddwch chi'n gweithio?
- Faint fydd yn ei gostio i greu? A fydd yn costio £1,500 neu lai?

# Blwyddyn 9-10

**Categori:** TORRI CWYS NEWYDD – GWNEUD GWIR WAHANIAETH

**Briff:** Cynigiwch syniad ar gyfer y newid yr hoffech ei weld, a'r ffordd y byddech yn ei gyflawni, i fynd i'r afael â llygredd defnydd untro. Gallai hyn fod yn bolisi, yn faniffesto, yn addewid, neu'n broses newydd ar gyfer sicrhau bod eich ysgol, eich cymuned neu fusnesau lleol yn cynhyrchu llai o blastig untro.

Y gofynion ar gyfer cymryd rhan:

- Grŵp o 2-4 disgybl i gynnig a chyflwyno syniad.
- Cyflwyno fideo hyd at 3 munud i gynnig ac egluro'r syniad.
- Gallwch siarad yn uniongyrchol i mewn i'r camera gyda'ch grŵp neu greu cyflwyniad sleidiau.
- Cofiwch mai gofyn i chi gynnig a chyflwyno'r syniad i ni ryda' ni. Nid oes yn rhaid ichi gyflawni eich syniad; byddwn ni'n eich helpu chi i wneud hynny!
- Y dyddiad cau pendant ar gyfer cyflwyno'ch fideos ydi 30 Mai 2024. Gallwch anfon eich fideo i ni ar y ddolen hon **Cyflwyniad COPA1.**[1]

**PWYSIG:** Fel rhan o'ch fideo, rhowch y wybodaeth ganlynol i ni pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch hun:

- Enwau a chyfenwau aelodau eich grŵp
- Eich blwyddyn ysgol
- Eich ysgol

### Pethau i'w cadw mewn cof

Yn eich cyflwyniad fideo, ystyriwch y cwestiynau canlynol a rhowch atebion i ni o ran sut yr ydych wedi mynd i'r afael â'r isod:

- Sut y bydd eich syniad yn mynd i'r afael â phroblem plastigau untro a llygredd?
- Pwy ydych chi'n ei dargedu gyda'ch syniad?
- A yw eich syniad yn ymarferol? A ydych wedi ymgynghori â'r sefydliadau, y sector, neu'r gynulleidfa yr ydych yn eu targedu i weld a yw'n ymarferol?
- Gyda phwy fyddwch chi'n gweithio?
- Faint fydd yn ei gostio i greu? A fydd yn costio £1,500 neu lai?

## Enghraifft o Syniad Mawr GWNEUD GWIR WAHANIAETH:

Yn 2023 lansiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gynllun Busnes Di-blastig. Mae'r cynllun Busnes yn caniatáu i fusnesau lleol gael eu hachredu naill ai fel busnesau efydd, arian, neu aur os ydynt yn cytuno i gael eu harchwilio ac yn ateb cyfres o gwestiynau am eu defnydd o blastig untro a sut maen nhw'n mynd i'r afael â gwastraff. Nod y Parc Cenedlaethol yw archwilio/arolygu llawer o fusnesau lletygarwch yn y Parth Di-blastig o amgylch Yr Wyddfa gyda'r amcanion canlynol:

- Annog busnesau i leihau faint o blastig y maent yn ei ddefnyddio ac yn ei werthu i gwsmeriaid
- Codi ymwybyddiaeth am faterion llygredd ar Yr Wyddfa
- Annog busnesau i siarad am brosiect Yr Wyddfa Di-blastig.



RHEOLAETH GYFFREDINOL AC ATAL SBWRIEL / *GENERAL MANAGEMENT & LITTER PREVENTION*

| QU. REF | CWESTIWN / QUESTION | Wedi llwyddo i'w gyflawni (Atebwch yn Saesneg YES/NO/NA) / Achieved (YES/NO/NA) | Gweithio tuag at (Atebwch yn Saesneg YES/NO/NA) / Working towards (YES/NO/NA) | SYLWADAU [illegible] / COMMENTS Use this space to tell us about any initiatives or changes that you have implemented to achieve a reduction or elimination of SUP relevant to the question. If you have a specific challenge with any question, please do tell us in the comments. If you tell us the question is not applicable, please explain why (e.g. you don't offer picnics or takeaway options) |
|---|---|---|---|---|
| GM1 | Wrth brynu pethau newydd yn lle hen rai sy'n cynnwys plastig untro, rydych yn ystyried a oes angen eu prynu o gwbl / *Before purchasing alternatives to single-use plastic, consideration is given to whether they need to be replaced at all* | YES | yes | |
| GM2 | Mae eitemau all gael eu hailddefnyddio yn cael eu blaenoriaethu pan fo angen prynu pethau eraill yn lle eitemau sy'n cynnwys plastig untro / *Where single-use items do need to be replaced, reusable alternatives are given priority where feasible to do so* | yes | yes | |
| GM3 | Mae'r busnes yn ymgysylltu â chyflenwyr er mwyn sôn am yr ymdrech i leihau plastig untro a gofyn am eu cefnogaeth / *The business is proactively engaging with suppliers to inform them about efforts to reduce single use plastic and ask for their support* | no | yes | could do more - but to investigate how could they do more? Milk pergol is example of how it is difficult to change this. Alcohol is plastic wrapped - potential to look at this? Soft drinks also a challenge |

**Ciplun o holiadur archwilio cynllun busnes Yr Wyddfa Ddi-blastig**






## Blwyddyn 12

**Categori:** ARLOESI

**Briff:** Cynnig a chyflwyno syniad yn seiliedig ar ddyfeisgarwch neu ddyfais i fynd i'r afael â'r broblem sbwriel neu blastig untro ar Yr Wyddfa. Gallai hyn fod yn gynnyrch ffisegol neu ddigidol, neu hyd yn oed yn broses wedi'i hail-feddwl sy'n ein helpu i reoli her llygredd yn well ar y mynydd ac o'i gwmpas.

**Gofynion mynediad:**

- Grŵp o 2-4 myfyriwr i gynnig / gyflwyno syniad.
- Cyflwyno fideo hyd at 3 munud i gynnig ac egluro'r syniad.
- Gallwch siarad yn uniongyrchol i mewn i'r camera gyda'ch grŵp neu greu cyflwyniad sleidiau.
- Cofiwch mai gofyn i chi **gyflwyno'r syniad** i ni ryda' ni. Nid oes rhaid i chi greu eich cynnyrch; byddwn ni yn eich helpu i wneud hynny!
- Y dyddiad cau pendant ar gyfer cyflwyno'ch fideos ydi 30 Mai 2024. Gallwch anfon eich fideo i ni ar y ddolen hon **Cyflwyniad COPA1.**[1]

**PWYSIG:** Fel rhan o'ch fideo, rhowch y wybodaeth ganlynol i ni pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch hun:

- Enwau a chyfenwau aelodau eich grŵp
- Eich blwyddyn ysgol
- Eich ysgol

**Pethau i'w cadw mewn cof**

Yn eich cyflwyniad fideo, ystyriwch y cwestiynau canlynol a rhowch atebion i ni o ran sut yr ydych wedi mynd i'r afael â'r isod:

- Beth yw pwrpas penodol eich arloesedd?
- Pwy sy'n cystadlu yn eich erbyn?
- Pwy yw cwsmeriaid eich arloesedd?
- A ydych chi wedi gwneud dadansoddiad CGCB? (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?
- Faint fydd prototeipio hyn yn ei gostio? A yw o fewn y gyllideb o £1,500?

## Enghraifft o Syniad Mawr ARLOESI:

Yn 2023 creodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y Bananacam. Mae'r Bananacam yn gamera treigl amser pwrpasol wedi'i bweru gan yr haul gyda phlatfform a chawell pwrpasol, sy'n ffrydio delweddau o groen banana yn bioddiraddio ar gopa'r Wyddfa. Gall y cyhoedd weld y delweddau bob awr ar wefan fach Bananacam. Pwrpas y Bananacam yw:

- Dangos fod sbwriel organig yn sbwriel yr un fath yn union a bwriad y Bananacam ydi lleihau gwastraff trwy addysgu ymwelwyr.
- Costiodd y camera a'r platfform lai na £1,000 i'w adeiladu ac fe ddenodd lawer iawn o sylw gan y cyfryngau (BBC, Telegraph, Daily Mail, ITV ac ati), gan olygu bod hyn yn werth gwych am yr arian a gafodd ei fuddsoddi, yn enwedig wrth ystyried effaith y ddyfais o'i gymharu â'r costau.
- Roedd rhai heriau peirianyddol ac roedd y tywydd garw ar Yr Wyddfa yn golygu bod yn rhaid i'r dechnoleg fod yn gadarn.










# Cwestiynau Cyffredin

***Sut mae cyrraedd y copa ar gyfer digwyddiad COPA1?***

Mewn partneriaeth ag Awdurdod Pharc Cenedlaethol Eryri, bydd Rheilffordd Yr Wyddfa yn darparu cludi-ant ar y trên o Lanberis i ben Yr Wyddfa.

***Beth yw sesiwn deor?***

Mae sesiwn deor yn weithdy sy'n helpu mentergarwyr, dyfeiswyr a phobl greadigol i ddatblygu a gwireddu eu syniadau. Trwy weithio gydag arbenigwyr a hwyluswyr profiadol yn eu maes, gall disgyblion weithio ar fanylion eu cysyniadau a datrys unrhyw broblemau posibl.

***Pwy fydd yn cynnal y sesiynau deor?***

Bydd pobl greadigol, dyfeiswyr, mentergarwyr a gweision sifil yn hwyluso'r sesiynau deor. Byddant yn gwrando ar eich cynnig / cyflwyniad ac yna'n gweithio gyda chi dros gyfnod o 20 munud i'w ddatblygu a'i fireinio. Byddant yn sgorio pob cynnig / cyflwyniad yn seiliedig ar feini prawf penodol.

***Pryd gaf i wybod a ydi fy ngrŵp i wedi cael ei ddewis i fynychu COPA1?***

Bydd panel Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn asesu yn asesu pob cynnig / cyflwyniad fideo ac yn llunio rhestr fer o 3 grŵp o bob categori i fynychu'r digwyddiad. Cyhoeddir y grwpiau ar y rhestr fer erbyn 30 Mehefin 2024. Anfonir amserlen lawn atoch ar gyfer y diwrnod unwaith y bydd y grwpiau ar y rhestr fer wedi'u cyhoeddi.

***Pryd alla i weithio ar fy Syniad Mawr?***

Bydd gan eich tiwtor dosbarth becyn adnoddau a gall weithio gyda'ch grŵp yn ystod sesiynau dosbarth i drafod syniadau a datblygu syniadau ac adeiladu achos busnes ar gyfer eich cysyniad. Gallwch weithio ar eich cynnig / cyflwyniad yn ystod eich amser rhydd neu os oes gennych wersi rhydd a chaniatâd i wneud hynny gan eich athro.

[1] https://shorturl.at/dhnrT